NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Niwmonia a geir yn yr ysbyty: rhagnodi gwrthficrobaidd

16 Medi 2019

## *Niwmonia sy'n datblygu yn yr ysbyty: oes angen gwrthfiotigau arna i?*

Mae niwmonia yn fath o haint ar y frest, a all fod yn ddifrifol. Mae'r symptomau'n cynnwys peswch, pesychu fflem, twymyn, anhawster anadlu a phoen yn y frest. Weithiau bydd pobl yn datblygu niwmonia tra byddant yn yr ysbyty gyda phroblem arall Gelwir hyn yn niwmonia a geir yn yr ysbyty ac mae'r cyngor hwn yn ymdrin ag ef.

Mae defnyddio gwrthfiotigau pan nad oes eu hangen arnoch yn golygu efallai na fyddant yn gweithio cystal yn y dyfodol. Mae hwn yn risg iechyd difrifol, felly mae NICE wedi ysgrifennu cyngor ar bryd i gynnig gwrthfiotigau ar gyfer rhai cyflyrau cyffredin.

Oherwydd bod niwmonia fel arfer yn cael ei achosi gan facteria ac y gall fod yn ddifrifol, dylech gael cynnig gwrthfiotigau.

Dylid rhoi gwrthfiotigau i chi cyn gynted â phosibl, ac yn sicr o fewn 4 awr i gael eich diagnosis.

Dylid cymryd sampl o'ch fflem er mwyn cadarnhau pa facteria sy'n achosi'r haint. Efallai y bydd eich meddyg yn newid eich gwrthfiotig pan ddaw canlyniadau'r profion hyn yn ôl. Mae pobl fel arfer yn dechrau gwella o fewn ychydig ddiwrnodau i ddechrau'r gwrthfiotigau. Dywedwch wrth eich meddyg os na fyddwch yn dechrau teimlo'n well neu os byddwch yn dechrau teimlo'n waeth.

## *Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?*

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

Mae gan wefan y GIG  fwy o wybodaeth am:

- niwmonia a
- gwrthfiotigau.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu gwybodaeth am pam y dylid defnyddio gwrthfiotigau yn gall.

Gwnaethom ysgrifennu'r canllawiau hyn gyda gweithwyr iechyd proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd. Mae'r holl argymhellion yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3532-1



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.